
Y prosiect peirianeg T452

Patrwm cyflwyno O fis Chwefror i fis Medi

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r prosiect unigol hwn yn gyfle i fyfyrwyr gymhwyso egwyddorion gwyddor peirianeg a dulliau mathemategol a ddysgwyd yn ystod eu hastudiaethau gyda'r Brifysgol Agored er mwyn diffinio, dadansoddi a datrys problem peirianeg. Ar gyfer y gwaith annibynnol hwn, bydd angen gwybodaeth a dealltwriaeth arnynt o ymarfer peirianeg berthnasol a rheoli prosiectau. Byddant yn ymgymryd ag adolygiad o lenyddiaeth ac yn cyflwyno canlyniadau eu prosiectau ar ffurf adroddiad technegol ffurfiol. Drwy gydol y modiwl, bydd tiwtor profiadol yn eu cynghori ac yn eu harwain, ond disgwylir iddynt gynhyrchu eu gwaith yn annibynnol, heb oruchwyliaeth agos. Disgwylir i fyfyrwyr fod wedi cwblhau modiwl lefel 3 Y Brifysgol Agored sy'n berthnasol i bwnc eu prosiect.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu un o'r modiwlau Lefel 3 cysylltiedig neu brofiad cyfatebol yn y maes (yn yr achos hynny, bydd angen i chi ymgylfarwyddo ag o leiaf un o'r modiwlau cysylltiedig)
- y gallu i fodloni manyleb y person ar gyfer un o'r modiwlau Lefel 3 cysylltiedig
- y gallu i helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau allweddol cyffredinol ac ymarfer myfyriol sy'n gysylltiedig â gwaith prosiect a chyflogadwyedd.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o oruchwyllo gwaith prosiect gyda myfyrwyr mewn amgylchedd academaidd
- bod yn gyfarwydd â thechnegau chwilio llenyddiaeth electronig cyfredol ac adnoddau.

Gwybodaeth ychwanegol

- Anogir darlithwyr cyswllt i weithredu fel ail farcwyr ar adroddiadau prosiect myfyrwyr darlithydd cyswllt arall.
- Oherwydd y cysylltiadau cryf rhwng y prosiectau a'r modiwlau rhagflaenu, caiff ceisiadau eu hannog gan ddarlithwyr cyswllt sy'n tiwtora neu sydd wedi tiwtora unrhyw rai o'r modiwlau Lefel 3 hyn.
- Croesawir ceisiadau eraill hefyd, yn enwedig gan y rhai sy'n barod i ymgymryd â'u swyddi yn gynt nag arfer, er mwyn rhoi amser iddynt ymgylfarwyddo â chynnwys un neu fwy o'r modiwlau cysylltiedig.

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	6
Band cyflog:	2
Oriau yr amcangyfrifir fesul wythnos addysgu:	3